



## Tasg 3

# Elw

### O'r fferm i'r siop ...

Mae ffermwyr yn Affrica, Asia a De America yn ffermio'r ffa coco ac maen nhw'n gwerthu'r ffa coco i gwmnïau siocled.

Ond mae'r cwmnïau siocled – a'r siopau – yn gwneud elw mawr ac weithiau dim ond 6% o bris y siocled mae'r ffermwyr yma'n cael (ddim ffermwyr Masnach Deg!).

Atebwch y cwestiynau yma – ysgrifennwch y rhifau a'r geiriau.

1. Os ydy bar mawr o siocled yn costio £1.98, faint mae'r ffermwyr yma'n ennill?
2. Os ydy bocs o siocledi'n costio £5.45, faint mae'r ffermwyr yma'n ennill?
3. Os ydy pecyn o siocledi yn costio £2.50, faint mae'r ffermwyr yma'n ennill?
4. Os ydy bar bach o siocled yn costio 60c, faint mae'r ffermwyr yma'n ennill?

Meddylwch am enghreifftiau eraill a rhowch nhw i'ch partner chi.

Geirfa	
gwerthu	to sell
elw	profit
weithiau	sometimes
dim ond	only
os ydy ...	if ...
y ffermwyr yma	these farmers
ennill	to earn



Atebwch y cwestiynau yma – ysgrifennwch y rhifau a’r geiriau.

Faint o elw mae’r cwmnïau yma’n wneud?

1. Mae cwmni te’n prynu te oddi wrth ffermwr am £2.50 y kilo.

Mae’r cwmni’n gwerthu’r te i’r archfarchnad ond mae’n gwneud elw o 25%.  
Faint mae’r archfarchnad yn talu am y te.

Yna, mae’r archfarchnad yn gwerthu’r te ac mae’n gwneud elw o 33%.  
Faint ydy pris y te yn yr archfarchnad?

Beth am ysgrifennu cwestiwn tebyg i’ch partner chi?

